# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

clerc@cyngor-llangelynnin-council.org.uk
**Clerc:** Jane Jenkins, 2 Talybont, Dolgellau, Gwynedd, LL40 1UA

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher – 11.06.25 - 7yh yn Y Ganolfan, Llwyngwril

Agorwyd y cyfarfod am 7.04 yh

**Presennol:** Geraint Edwards (GE) Cadeirydd, Keith Carroll (KC) - Is Gadeirydd, Huw Davies (HD), Ian Williams (IW), Geraint Micah (GM), Cath Severn (CS), Jane Jenkins (JJ) – Clerc.

**1. Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**2. Ymddiheuriadau**: David Griffiths, Jane Lawrence, Megan Griffiths, Louise Hughes - Cynghorydd Sirol.

**2a Datgan Diddordeb:** Nododd IW fuddiant personol ynghylch cais am gefnogaeth a dderbyniwyd gan ei wraig – Mrs Sue Williams - dogfennaeth wedi eu cwblhau'n a'u llofnodu.

**2b Cyfethol Cath Severn:** Darparwyd ffurflen Datganiad Derbyn Swydd i CS iddi ei darllen, ac fe lofnododd hi'r ddogfen. Esboniodd y Clerc fod ymrwymiad o fewn y derbyniad i fabwysiadu Cod Ymddygiad y Cyngor Cymuned – cytunodd CS gyda hyn. Cadarnhaodd y Clerc y byddai copi o'r Cod Ymddygiad yn cael ei anfon allan drwy e-bost i CS.

**GWEITHRED:** Y Clerc i hysbysu'r Swyddog Canlyniadau am y cyfethol, ac i anfon y Cod Ymddygiad allan i CS.

**3. Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf:** cadarnhau fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar **14.05.25** yn gywir.
**Cynnig:** HD **Eiliwyd:** KC **Arwyddwyd:** GE

**4. Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (14.05.25):**

**1. Diweddariad ynglyn ag y bibell garthffosiaeth, Afon Gwril**
Nodwyd yr ymateb gan Ddŵr Cymru, ond ni chafodd ei dderbyn. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu'n ôl gan ailadrodd y cais i gael gwared â'r bibell gan ei bod yn strwythur peryglus a chyda gwyliau'r hâf ar y gorwel, bydd plant yn mynd i'r afon a gallent anafu eu hunain.
**GWEITHRED:** Y Clerc i gysylltu â Dŵr Cymru, Gwasanaethau Carthffosiaeth.

**2. Diweddariad ar y diffibriliwr**
DG yn absennol felly nid oes diweddariad ar gael.

**3. GE yn hysbysu bod cwynion pellach wedi'u derbyn ynghylch y planhigion ar y palmant y tu allan i Bron Rhiw** a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd ynghylch hyn.
**GWEITHRED:** Y Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd.

**5. Gohebiaeth wedi eu derbyn:**

**1. Cais am gefnogaeth gan Mrs Sue Williams**
Derbyniwyd ail lythyr hefyd gan A Bennett ar gyfer yr un mater, ond nid yn unig oedd y cais hwn yn gofyn am lythyr o gefnogaeth, ond cyfraniad ariannol hefyd. Trafododd y Cynghorwyr y cais â'r budd i'r gymuned.

**PENDERFYNWYD:** Cytuniad unfrydol i ysgrifennu llythyr i gefnogi Mrs Sue Williams.
Penderfynnwyd anfon ymateb i A Bennett yn egluro mai dim ond ym Mis Chwefror y caiff ceisiadau ariannol eu hystyried a bydd y Cyngor Cymuned yn adolygu'r sefyllfa bryd hynny.

**GWEITHRED:** Y Clerc i anfon llythyrau at Mrs S Williams ac A Bennett

6. **Materion Cynllunio**:
   1. **Cais Cynllunio (ôl-weithredol) – NP5/69/111B – Isfryn, Llwyngwril LL37 2YJ**
      Nodwyd - Dim gwrthwynebiadau.

   2. **Cais Cynllunio (ailgyflwyniad) – NP5/69/56R – Byngalo Seaview, Sunbeach, Llwyngwril**
      Nodwyd – Dim gwrthwynebiadau.

   3. **Apêl Cynllunio Gwaith Achos PEDW CAS-03920-F4H3B8 – Sunbeach**
      Nodwyd. Soniodd y Clerc am fater yr oedd DG wedi'i godi ond roedd gwybodaeth yn gyfyngedig. Cytunodd y Cynghorwyr, os gellir darparu mwy o wybodaeth a manylion cyswllt, y gall y Clerc ysgrifennu a chanfod beth yn union yw'r sefyllfa cyn gwneud unrhyw benderfyniad pellach.

7. **Materion Ariannol**:
   1. **Datganiad cyllid misol ar gyfer Mai 2025**
      **PENDERFYNWYD:** Cytunwyd yn unfrydol fel cyfrif gwir.

   2. **Anfonebau/Taliadau**
      Taliadau – Cyflog a chostau'r Clerc Mis Mai (M2), ROSPA (gweler Unrhyw Fater Arall - pwynt 2).
      **PENDERFYNWYD:** Cytundeb unfrydol i wneud y taliadau a llofnodi'r sieciau.

      **GWEITHRED:** Y Clerc i wneud y taliadau.

   3. **Adroddiad yr Archwilwyr Mewnol**
      Darllenodd y Clerc Farn yr Archwiliad "Gellir mynegi sicrwydd yn y trefniadau llywodraethu a datganiad ariannol Cyngor Cymuned Llangelynnin ar gyfer y flwyddyn ariannol 24-25 yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd".

   4. **Ffurflen Flynyddol**
      Cynghorwyr yn hapus i'r Ffurflen Flynyddol gael ei llofnodi, felly llofnodwyd y ddogfen gan y Cadeirydd a'r Clerc, Dyddiad a chyfeirnod y cofnod wedi'i ychwanegu.

   5. **Hysbysiad Archwilio**
      Gosodwyd hysbysiad archwilio ar yr hysbysfwrdd, tynnwyd llun i'w roi ar y wefan hefyd.

      Bydd y ddogfennaeth archwilio nawr yn cael eu paratoi a'i hanfon ymlaen at Archwilwyr Cymru.

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr**: Dim.

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol**: Ddim yn bresennol.

10. **Unrhyw Fater Arall**:

    1. **Cwblhau Archwiliad 2023-24**
       Dogfennaeth wedi eu derbyn ar ôl anfon yr Agenda allan. Mae'r archwiliad bellach wedi ei gwblhau, a gosodwyd

yr hysbysiad o gwblhau ar yr hysbysfwrdd (tynnwyd llun) a bydd yn cael ei roi ar y wefan. Cynghorodd y Clerc y Cynghorwyr fod yr archwiliad yn Gymwysedig, ac eglurodd beth oedd hyn yn ei olygu a manylodd ar yr argymhellion.

**2. Adroddiad ROSPA 2025**

Derbyniwyd hwn ar ôl anfon yr Agenda allan ac mae copi wedi ei anfon i bawb. Mae hwn i'w roi ar agenda mis nesaf, pan fydd pawb wedi cael cyfle i'w ddarllen. Yn y cyfamser, cytunodd pawb y dylid cymeradwyo'r anfoneb ar gyfer yr adroddiad i'w thalu.

**3. Cyflwr y ffordd ddi-ddosbarth rhwng Parthygwyddwch a Tydfarch**

Cododd HD y mater o gyflwr y ffordd ddi-ddosbarth rhwng Parthygwyddwch a Tydfarch - sy'n rhan o un o deithiau cerdded cylchol y pentref, ac sydd hefyd yn rhan o'r llwybr arfordirol. Defnyddir y llwybr gan gerddwyr a gyrwyr "off road", a nodwyd fod cyflwr y ffordd wedi dirywio'n ddifrifol. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Briffyrdd Cyngor Gwynedd ac at Lwybrau Arfordirol (Rhys Gwyn Roberts) ynglyn â chyflwr y ffordd ddi-ddosbarth yma.

**4. Meinciau Newydd**

Cododd GE y mater o'r meinciau newydd ac awgrymodd y dylid eu sicrhau yn eu lle, yn dilyn lladrad y pennau concrit oddiar y fainc wedi'i thorri ger Fynwent y Crynwyr. Cytunodd pawb y dylid gwneud yn siwr fod y meinciau newydd yn ddigon saff fel na ellir neb eu dwyn.

**5. Coed Nadolig**

Cododd GE y mater o Goed Nadolig ac er bod coeden i Llwyngwril wedi'i drefnu, cododd y cwestiwn ynghylch beth oedd wedi'i fwriadu ar gyfer Rhoslefain. Awgrymodd HD ein bod yn aros ychydig, i weld sut mae'r ffrâm y mae'n adeiladu yn troi allan, cyn penderfynu.

Cyfarfod wedi diwedd am 8.10 yh

## <u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:- Nos Fercher - 09.07.25 - 7 o'r gloch yn Y Ganolfan, Llwyngwril</u>

**<u>Arwyddwyd</u>**
**Cadeirydd** R G Edwards **Dyddiad 09/07/2025**